Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 23 MAWRTH 2018, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, (Cadeirydd); Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (o gofnod 43.7); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) (tan gofnod 66); Mr George Ashworth; Ms Anne Davies (dros Skype, o gofnod 44 tan 52); Mr Keith Evans; Mrs Elizabeth France; Mr Richard John; Ms Gwerfyl Pierce Jones; y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern; Dr Hazel Davey (tan gofnod 66); Ms Kath Williams (tan gofnod 66); Yr Athro Reyer Zwiggelaar (tan gofnod 66); Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu UMAber; a Mr Gwion Llwyd Williams, Llywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (tan gofnod 66); Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid (tan gofnod 66); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol) (tan gofnod 66); Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio (tan gofnod 66); Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus (tan gofnod 66); Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol (tan gofnod 66); Mr Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Strategaeth Newid.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol; a Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).

43. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

   Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor:

   1. Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid; a

   2. Mr Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Strategaeth Newid.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Yr Athro Harold Carter, cyn-Bennaeth yr Adran Daearyddiaeth; a

   2. Geraint John, cyn aelod o staff yr Adran Gerddoriaeth.

3. Cyfieithu

   Oherwydd y streic yn ddiweddar gan aelodau Undeb y Prifysgolion a Cholegau (UCU) ynglŷn â newidiadau a gynigiwyd i gynllun pensiynau'r USS, ni fu'n bosibl cyfieithu rhai o bapurau'r cyfarfod.

4. Trysorydd

1. Roedd Dr Timothy Brain wedi rhoi gwybod i'r Brifysgol ar 12 Rhagfyr ei fod yn rhoi'r gorau i swydd Trysorydd. Mynegodd y Cyngor ei ddiolch i Dr Brain am ei gyfraniad i'r Brifysgol yn ystod ei gyfnod ar y Bwrdd Llywodraethu.

2. Roedd y Pwyllgor Siarter wedi ystyried pa mor angenrheidiol oedd swyddogaeth Trysorydd Anrhydeddus yn y dyfodol, a byddai argymhelliad i ddileu'r swydd yn rhan o newidiadau a argymhellir i'r Siarter ac Ystatudau yn cael ei ystyried yn ystod y cyfarfod.

3. Yn lle penodi Trysorydd newydd, roedd y Brifysgol yn ceisio recriwtio un neu fwy Aelod Annibynnol newydd i'r Cyngor a chanddynt sgiliau addas mewn cyllid a / neu gyfrifeg. Byddai un o'r aelodau hynny'n cael ei benodi'n Gadeirydd ar y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (C&S). Diolchodd yr aelodau i Gwerfyl Pierce Jones am gytuno i gadeirio'r PC&S yn y cyfamser.

5. Penodi Aelodau Annibynnol ar y Cyngor

Y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau i wasanaethu'n Aelodau annibynnol ar y Cyngor oedd canol dydd, dydd Iau, 15 Mawrth 2018. Derbyniwyd 35 cais, a byddai'r Pwyllgor Enwebiadau'n cyfarfod yn syth ar ôl cyfarfod cyfredol y Cyngor i ystyried y ceisiadau a chytuno ar restr hir gydag Odgers Berndtson, sef yr asiantaeth a gyflogwyd gan y Brifysgol i gynorthwyo gyda'r gwaith.

6. Trefn Busnes

1. Oherwydd cynnwys y papur ar ad-drefnu arfaethedig y Brifysgol, byddai angen i rai o aelodau'r Cyngor a rhai a oedd yn gweinyddu ymesgusodi oherwydd gwrthdaro buddiannau.

PENDERFYNWYD

2. Ystyried y papur yn ymwneud ag ad-drefnu'r Brifysgol yn eitem olaf yn ystod y cyfarfod, a nodi'r cofnodion hynny mewn atodiad ar wahân.

7. Dull gweithredu'r Cyngor a'i is-bwyllgorau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gadeirydd y Cyngor (COU1718-057).

NODWYD

1. Ers dod yn Gadeirydd y Cyngor ar 1 Ionawr 2018, roedd Dr Emyr Roberts wedi cynnal cyfarfodydd anffurfiol â holl aelodau'r Cyngor i gael eu barn am ddull gweithredu'r Cyngor a'i is-bwyllgorau. Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i'r aelodau am gyfranogi yn y broses.

2. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn y trafodaethau hyn, ac yn cynnig nifer o argymhellion i'w hystyried.

PENDERFYNWYD

3. Y dylid cynnal cyfarfodydd rhannu gwybodaeth ar bynciau penodol cyn cyfarfodydd y Cyngor, ac i ddosbarthu mwy o wybodaeth i'r Cyngor am gyflawniadau'r Brifysgol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

4. Y dylai'r Is-Ganghellor fynd i gyfarfodydd byr gydag Aelodau Annibynnol i drafod unrhyw faterion yn breifat cyn cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

5. Y dylai'r Weithrediaeth baratoi cynigion ar gyfer rhesymoli fframwaith yr is-bwyllgorau, yn unol â'r cyfeiriad strategol newydd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

6. Yn y dyfodol, y dylai agendâu a phapurau i'r Cyngor geisio canolbwyntio ar brif faterion strategol sy'n wynebu'r Brifysgol a'r Cyngor (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

7. Annog mwy o ymwybyddiaeth ynglŷn â swyddogaeth y Cyngor yn y Brifysgol, a'r penderfyniadau a wneir gan y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol; a Phennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus).

44. GWRTHDARO BUDDIANNAU

NODWYD

1. Ar sail cyngor cyfreithiol a gafodd y Brifysgol, byddai angen i bob aelod o staff ymesgusodi o drafodaeth y Cyngor ar ad-drefnu arfaethedig y Brifysgol, yr unig eithriadau fyddai'r Is-Ganghellor, Cyfarwyddwr Strategaeth Newid, ac unigolyn i gymryd cofnodion. Cai'r aelodau o'r Cyngor a ganiateid i gymryd rhan yn y drafodaeth eu gwahodd i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau yng nghyswllt yr ad-drefnu arfaethedig ar ôl i'r staff adael.

2. Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion eraill i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

45. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2017 (COU1718-059).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

46. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1718-060).

NODWYD

1. <u>Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol Mewn Cadwyni Cyflenwi (cofnod 115)</u>

   PENDERFYNWYD

   Y dylid cyflwyno diweddariad ar y cynllun gweithredu i gyfarfod nesaf y Cyngor, i sicrhau y cydymffurfir â'r Cod Ymarfer (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

2. <u>Pantycelyn (cofnod 29)</u>

NODWYD

1. Bwriedir cyllido gwaith adnewyddu Pantycelyn trwy grant £5m gan Lywodraeth Cymru a £7m i'w ryddhau o'r cronfeydd gwaddol. Tan y ceir cadarnhad terfynol am y cyllid, ni allai'r Brifysgol benodi contractwyr yn ffurfiol ar gyfer y prif waith adeiladu.

2. Roedd asesiadau'r Brifysgol ei hun wedi canfod sawl cronfa waddol digyfyngiad y gellid ei defnyddio i ddibenion elusennol mwy cyffredinol. Ar hyn o bryd roedd cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio i gadarnhau'r asesiad hynny a'r bwriad oedd gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol y Cyngor i ail-ddynodi'r cronfeydd gwaddol yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2018 (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid).

3. Roedd swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol ar gyfer dyfarnu grant o £5m yn cael ei hystyried yng nghyfarfod Panel Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar 20 Mawrth 2018. Y rheswm bod yr Is-Ganghellor yn hwyr i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor oedd sgwrs ffôn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn ag agweddau pellach o'r cais am grant y byddai angen i'r Brifysgol bellach roi sylw iddynt yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Panel Cyfalaf.

3. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

47. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-052).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo naill ai gan aelodau trwy ohebiaeth, neu'n weithredol gan Gadeirydd presennol neu flaenorol y Cyngor yn unol â darpariaethau Rheol Sefydlog.

2. Y materion a gymeradwywyd gan aelodau'r Cyngor trwy ohebiaeth oedd:

    1. Dogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu'r Brifysgol, i'w chyflwyno i'r Cyngor Cyllido; a

    2. newidiadau dros-dro i Ordinhad 36 ("Polisi Osgoi Diswyddiadau") i ganiatáu rhoi ystyriaeth ddyledus i ad-drefnu'r sefydliad cyfan, a chyflawni'r ad-drefnu hwnnw.

3. Y materion a gymeradwywyd trwy Gamau Gweithredol gan y Cadeirydd presennol neu flaenorol oedd:

    1. cyflwyno data'r adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Tachwedd 2017 mewn diwyg gwahanol;

    2. penodi Richard John ar y Pwyllgor Enwebiadau, am gyfnod tan 31 Gorffennaf 2020;

    3. cytundeb rhwng y Brifysgol a Boston Campus Limited;

    4. testun terfynol Cynllun Strategol 2018-23;

    5. penodi KPMG yn Archwilwyr Allanol y Brifysgol;

    6. estyn cyfnod yr Athro John Grattan yn swydd Dirprwy Is-Ganghellor tan 31 Gorffennaf 2018;

7. ymgymryd â chyd berchnogaeth ar Batent Prifysgol Aberystwyth gyda Phrifysgol Queen's Belffast;

8. neilltuo perchnogaeth Patent Prifysgol Aberystwyth i Rotham Research;

9. penodi Deloitte yn Archwilwyr Mewnol y Brifysgol;

10. penodi'r Athro Wynne Jones yn gynrychiolydd a enwebwyd gan y Cyngor ar Fwrdd Ymgynghorol Allanol IBERS;

11. penodi Ian MacEachern ar y Pwyllgor Buddsoddiadau, am gyfnod tan 31 Gorffennaf 2018;

12. penodi Ian MacEachern yn Ymddiriedolwr a enwebwyd gan y Cyngor i Gynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (AUPAS);

13. cynnwys y Dirprwy Is-Gangellorion ym mhroses ddiwygiedig Ordinhad 36.

48. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

49. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1718-062).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad ar fformat newydd ac yn cynnwys tair rhan allweddol: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad manwl ar ddenu a chofrestru myfyrwyr, yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a thablau cynghrair, a ffactorau allanol pwysig; a chrynodeb o gyfathrebiadau diweddar.

2. Cafodd pedwar aelod o staff academaidd eu penodi i wasanaethu ar is-baneli a sefydlir ar gyfer yr ymarfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FhRhY) nesaf. Llongyfarchwyd Yr Athro Michael Gooding, Yr Athro Yr Athro Colin McInnes, yr Athro Phillipp Schofield, a'r Athro Qiang Shen ar eu penodi.

3. Trafododd yr aelodau'r gweithredu diwydiannol diweddar gan aelodau'r UCU mewn ymateb i newidiadau arfaethedig i gynllun pensiwn yr USS, a'r gweithredu 'nad yw'n streicio' a oedd yn parhau. Roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol) a'r tîm yn gweithio'n galed i sicrhau nad oedd myfyrwyr dan anfantais o ganlyniad i'r gweithredu.

4. Cafodd penodiad Robin Halley yn Gyfarwyddwr Marchnata a Derbyn Myfyrwyr ei gyhoeddi'n ddiweddar gan y Brifysgol. Un o flaenoriaethau'r Cyfarwyddwr newydd pan ddaw i'r swydd ar 23 Ebrill 2018 fydd gwneud adolygiad manwl o weithgareddau denu myfyrwyr y Brifysgol yn enwedig felly denu myfyrwyr o Gymru, a byddai digon o adnoddau'n cael eu neilltuo i hyn o beth.

50. ADRODDIAD GAN LYWYDD UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Datblygu UMAber (COU1718-063).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr (UMAber) ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

2. Ym mis Ionawr 2018, roedd yr Is-Ganghellor wedi gwahodd Swyddog Datblygu UMAber i ystyried gweithrediadau a mathau'r gwasanaethau i'w darparu ar gyfer yr Undeb yn y dyfodol, ac felly pa fath o ddarpariaeth llety fyddai'n fwyaf priodol. Cafodd copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Is-Ganghellor ar y mater hwn ei gylchredeg er gwybodaeth. Roedd yr adroddiad yn cael ei ystyried yn awr gan yr Is-Ganghellor a byddai'n cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu Strategaeth Ystadau arfaethedig y sefydliad.

3. llongyfarchwyd Swyddog Datblygu UMAber ar ei ailethol yn swyddog sabothol am 2018-19 yn yr un swydd, ond ag iddi deitl gwahanol, sef Llywydd UMAber. Llongyfarchodd y Cyngor hefyd ymgeiswyr eraill a gafodd eu hethol neu eu hailethol i wasanaethu o 01 Gorffennaf 2018.

51. CYNLLUN STRATEGOL 2018-2023

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio, a Phennaeth Datblygu Strategol (COU1718-064); a

2. Drafft o Gynllun Strategol 2018-23 wedi'i ddylunio i'w argraffu (COU1718-089).

NODWYD

3. Ar 27 Tachwedd 2017, cymeradwyodd y Cyngor mewn egwyddor destun arfaethedig Cynllun Strategol 2018-23, a dirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Cyngor ar y pryd i gymeradwyo'n ffurfiol destun a ddiwygiwyd yn dilyn derbyn unrhyw adborth munud olaf. Ers hynny, cafodd y testun a gymeradwywyd ei wneud yn ddogfen wedi'i dylunio i'w chyhoeddi. Roedd aelodau wedi ystyried a rhoi adborth ar y dyluniad arfaethedig ar gyfer cyhoeddi.

4. Roedd 12 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u nodi a fyddai'n rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa i fonitro gweithrediad y Cynllun Strategol. Roedd y rhain wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad. Dim ond y gwerthoedd gwirioneddol a gynhwyswyd yn yr adroddiad yng nghyswllt y Dangosyddion arfaethedig. Byddai targedau'n cael eu datblygu'n awr, i'w dwyn gerbron er mwyn eu cymeradwyo pan fyddai'r ymgynghoriad mewnol angenrheidiol wedi'i wneud (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

5. Roedd y Dirprwy Is-Gangellorion nawr yn datblygu cyfres o is-strategaethau, gan ddefnyddio'r mesurau a gynigiwyd yn rhan o'r Cynllun Strategol trosfwaol. Felly, byddai cyfres bellach o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol manylach yn cael eu monitro hefyd gan Weithrediaeth y Brifysgol yng nghyswllt yr is-strategaethau ac agweddau mwy gweithrediadol y Brifysgol. Yng nghyfarfod y Pwyllgor C&S ar 14 Chwefror 2018, roedd aelodau wedi gofyn a ellid datblygu amserlen o adrodd thematig manwl fel y gallai'r corff llywodraethu ganolbwyntio ar y Dangosyddion mwy manwl hyn yn ystod y cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD

6. Cymeradwyo dyluniad arfaethedig argraffiad Cynllun Strategol 2018-23 yn amodol ar adolygu'r delweddau i'w defnyddio, yn enwedig ar y clawr blaen (**GWEITHREDU:** Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus).

7. Cymeradwyo'r 12 Dangosydd Perfformiad Allweddol lefel uchel, a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cytuno ar werthoedd targed perthnasol (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

8. Y dylid datblygu amserlen o adrodd thematig manwl ar Ddangosyddion Perfformiad a'i chyflwyno i'w chymeradwyo.**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

9. Y dylai'r Cyngor dderbyn diweddariad ar berfformiad o'i gymharu â'r 12 Dangosydd ymhob cyfarfod ar ôl cytuno ar y gwerthoedd targed perthnasol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

52. CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD (CGC)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell; y Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Newid Strategol; a'r Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1718-065).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf ynglŷn â'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yn achos targedau'r CGC; y ffactorau ariannol yn dylanwadu ar gyflawni o'i gymharu â thargedau; a dull lliniaru risg a sefydlwyd.

2. Er bod yr Is-Ganghellor yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r arbedion angenrheidiol, byddai'r cyfnod tan 31 Gorffennaf 2019 yn parhau'n heriol gan y bydd angen gwneud nifer o benderfyniadau anodd.

53. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid (COU1718-066).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol yn Chwarter 2 2017-18, yn ogystal â'r manylion diweddaraf am ddangosyddion perfformiad eraill sy'n gysylltiedig â chyllid.

2. Roedd y Brifysgol wedi cyflogi cynghorwr arbenigol i gynorthwyo wrth bwrcasu Adnodd Credyd Cylchdroawl i hwyluso llif arian yn ystod cyfnod darparu prosiectau cyfalaf sylweddol y sefydliad. Yn y cyswllt hwn y bwriad oedd cyflwyno cynnig i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2018.

54. CAMPWS YMCHWIL AC ARLOESEDD ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); a Phrif Swyddog Gweinyddol y Campws Ymchwil ac Arloesedd (COU1718-068).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cynnwys achos busnes wedi'i ddiweddaru ar gyfer prosiect Campws Ymchwil ac Arloesedd Aberystwyth. Ar sail y ddogfen hon, roedd y BBSRC (Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol) wedi cadarnhau eto ar 14 Mawrth 2018 ei fod yn cymeradwyo'r prosiect.

2. Er bod Cyngor y Brifysgol wedi cymeradwyo'r prosiect yn ffurfiol yn 2015, roedd Cadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor wedi cytuno y byddai'n briodol i'r corff llywodraethu hefyd gadarnhau ei gymeradwyaeth eto, a chaniatáu i'r Brifysgol anfon llythyr o fwriad at y contractwyr yng nghyswllt y Banc Bio Seed.

3. Ni fu'n bosibl cyflwyno copi o'r achos busnes a ddiweddarwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor C&S cyn cyfarfod y Cyngor. Cynigiwyd felly y dylid cynnull Cyfarfod Arbennig o'r pwyllgor hwnnw i edrych yn fanwl ar y proffil ariannol a chadarnhau'r costau perthnasol cyn anfon llythyr o fwriad.

4. Yn dilyn newidiadau i gynllun adeiladau'r campws, gwnaed arolwg i sicrhau bod y dull caffael a ddefnyddiwyd yn briodol, gan ofyn am gyngor gan gynghorwyr cyfreithiol a chan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (SCEC).

PENDERFYNWYD

5. Cadarnhau eto bod y Brifysgol yn cymeradwyo prosiect y Campws Ymchwil ac Arloesedd a chytuno mewn egwyddor i anfon llythyr o fwriad i greu contract adeiladu gyda chwmni Willmott Dixon Construction Ltd ar gyfer y Banc Bio Seed, sy'n elfen a gyllidir gan y Brifysgol; yn amodol ar ymrwymiad llwyr y Cyngor Ymchwil (BBSRC), ac archwiliad terfynol o'r proffil ariannol a chadarnhad o gostau'r datblygiad yn ei grynswth yn dilyn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor C&S (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil)).

55. CYNLLUN FFIOEDD A MYNEDIAD 2019–20

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); y Cyfarwyddwr Cynllunio; a Phennaeth Datblygu Strategol (COU1718-069).

NODWYD

1. Cytundeb rheoliadol rhwng y Cyngor Cyllido a'r prifysgolion yw'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, sy'n caniatáu i sefydliadau godi ffioedd o £9mil ar israddedigion amser llawn, ac i fyfyrwyr gael defnyddio benthyciadau'r cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Yn rhan o'r cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad, roedd yn rhaid i'r Brifysgol ddangos sut y byddai'n gwario 15 i 17 y cant o'r incwm a ragwelir o israddedigion amser llawn i wella cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch.

2. Byddai'r cais yn un mwy cyffredinol na'r rhai a gyflwynwyd ers rhai blynyddoedd oherwydd natur y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, y potensial i ail-gyflunio adrannau'r Gwasanaethau Proffesiynol yn rhan o'r ad-drefnu arfaethedig yn y Brifysgol, a newidiadau posibl i deitlau cynlluniau allweddol.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r testun a'r rhagdybiaethau sy'n sail i geisiadau Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019-20, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn ymwneud â phoblogaeth israddedigion amser llawn 2019-20, a gofyn i'r cais gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r CCAUC (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

56. NEWIDIADAU I'R SIARTER AC YSTATUDAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Christopher Turner; ac Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-070).

NODWYD

1. Roedd datblygiadau diweddar yn y Brifysgol - gan gynnwys gwahanu swyddogaethau'r Canghellor a Chadeirydd y Cyngor o 01 Ionawr 2018, ac ymddiswyddiad Dr Timothy Brain y Trysorydd - wedi rhoi cyfle i adolygu Siarter ac Ystatudau'r sefydliad. Cafodd Dr Christopher Turner, cyn-Gofrestrydd a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Llywodraethu Prifysgol Caerdydd ei gyflogi i gynorthwyo Ysgrifennydd y Brifysgol gyda'r broses hon.

2. Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gytuno i ofyn i'r Cyfrin Gyngor i gymeradwyo newidiadau i'r Siarter ac Ystatudau. Cafodd y newidiadau eu trafod a'u hargymell i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Siarter yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr ac wedi hynny mewn gohebiaeth e-bost.

3. Ar 25 Ionawr 2018, ystyriodd y Pwyllgor Siarter yn fanwl a oedd swydd a swyddogaethau'r Trysorydd yn dal yn berthnasol i'r Brifysgol, o ystyried y newidiadau i'w chyfrifoldebau ers rhai blynyddoedd. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i wahaniaethu rhwng y teitl Trysorydd, sef yr hyn sy'n gallu peri dryswch yng nghyswllt cyfrifoldebau, a'r dyletswyddau cysylltiedig â'r swydd sy'n parhau'n berthnasol iawn mewn cyd-destun llywodraethol.

4. Argymhellodd y Pwyllgor Siarter felly y dylid dileu Swydd Anrhydeddus y Trysorydd, y dylai'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â hi ar hyn o bryd gael eu cymryd gan Aelod Annibynnol sydd â sgiliau ym maes cyllid a / neu gyfrifeg a fyddai'n cael ei benodi/phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, ac y byddai'r dyletswyddau hynny'n cael eu nodi'n ffurfiol yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor.

5. Cyn cysylltu â'r Cyfrin Gyngor yn ffurfiol, roedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi gofyn iddynt am adborth anffurfiol. Cafodd cyngor defnyddiol a chalonogol ei dderbyn y diwrnod blaenorol, a byddai'r Brifysgol mewn sefyllfa i roi sylw i'r mân ymholiadau a godwyd.

PENDERFYNWYD

6. Cadarnhau'r newidiadau arfaethedig i'r Siarter ac Ystatudau, gan gynnwys dileu Anrhydeddus Swydd y Trysorydd, a gwneud cais ar i fersiwn Gymraeg o'r newidiadau arfaethedig i'r dogfennau llywodraethu gael ei pharatoi (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

7. Gofyn yn ffurfiol i'r Cyfrin Gyngor am Siarter ac Ystatudau Atodol diwygiedig, yn amodol ar unrhyw newidiadau y byddai'r Cyfrin Gyngor yn eu mynnu, gyda chytundeb Cadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor.**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

57. ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD

NODWYD

1. Byddai cyfnod Mrs Elizabeth France yn aelod annibynnol ar y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y corff llywodraethu yn dod i ben ar 30 Ebrill 2018.

2. Yng ngoleuni'r drefn a nodir yn Ordinhad 40, roedd yr aelodau annibynnol wedi trafod y lle sydd ar fin dod yn wag yn y sesiwn anffurfiol cyn dechrau cyfarfod y Cyngor, a chynigiwyd y dylid penodi Ms Gwerfyl Pierce Jones yn Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor.

PENDERFYNWYD

3. Penodi Ms Gwerfyl Pierce Jones yn Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor o 01 Mai 2018, am weddill ei chyfnod ar y corff llywodraethu (31 Rhagfyr 2019) (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

58. RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Rheolwr Diogelu Data a Hawlfraint; a Phennaeth Datblygu Strategol (COU1718-071).

NODWYD

1. Disgwylid y byddai'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn dod i rym ar 25 Mai 2018. Ym mis Tachwedd 2017, gwnaed Archwiliad Mewnol ymgynghorol gan y Brifysgol ar gyfer cydymffurfio â'r Rheoliad, a chafodd yr adroddiad a ddeilliodd o hynny ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 09 Mawrth 2018.

2. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, cydnabu'r aelodau fod y sector cyhoeddus ymhell ar ôl y sector preifat o ran bod yn barod am y Rheoliad hwn. Ar sail eu profiad o wneud archwiliadau tebyg, cadarnhawyd gan yr Archwilwyr Mewnol fod datblygiad y Brifysgol tuag at gydymffurfio yn debyg i sefyllfa adran o'r llywodraeth.

3. Ar argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Risg, cynhwyswyd yn yr adroddiad gynllun gweithredu manwl yn nodi cynnydd tuag at gydymffurfio â'r Rheoliad. Pwysleisiai hyn y cynnydd pellach a wnaed ers cyflawni'r gwaith maes ar gyfer yr archwiliad ym mis Tachwedd 2017.

4. Pwysleisiodd yr aelodau bod angen i'r Brifysgol benodi unigolyn yn Swyddog Diogelu Data'r sefydliad - swyddogaeth statudol sydd angen elfen o annibyniaeth i herio cydweithwyr, a'r gallu i godi materion yn uniongyrchol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Is-Ganghellor yn ôl yr angen.

5. Byddai asesiad pellach yn cael ei wneud nawr i ganfod y meysydd yn y sefydliad sy'n dal mewn perygl o beidio â chydymffurfio â'r Rheoliad erbyn 25 Mai 2018, a byddai adroddiad cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i Weithrediaeth y Brifysgol. Cyflwynir hefyd ddiweddariad ynglŷn â chydymffurfio â'r Rheoliad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor A&R (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

59. CPAPA/AUPAS: CYFAMOD CYFLOGWR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Nansi George (COU1718-072).

NODWYD

1. Bod Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth yn ymgymryd â gwerthusiad actiwaraidd ffurfiol teirblwyddol y Cynllun fel y safai ar 01 Awst 2017. Gwnaed yr arolwg diwethaf o'r fath ar 01 Awst 2014. Er bod y Cynllun wedi'i gau i gyfraniadau aelodau ers Ebrill 2015, disgwylid y byddai diffyg ariannol y Cynllun wedi cynyddu.

PENDERFYNWYD

2. Bod y Brifysgol fel cyflogwr yn cytuno'n ffurfiol i barhau i warantu yn erbyn unrhyw ddiffyg ar y ddealltwriaeth y byddai'r cyfanswm blynyddol a delir tuag at wneud iawn am y diffyg yn cael ei gadw ar y lefel gyfredol, a fyddai felly'n golygu y gallai gymryd yn hwy i adfer y sefyllfa (**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Nansi George).

60. POLISI GWRTH DWYLL A CHAMYMDDWYN

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); ac Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-073).

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 03 Hydref 2017, roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cymeradwyo Polisi Gwrth Dwyll a Chamymddwyn newydd, i ddisodli Polisi cyfredol y Brifysgol ar Dwyll, Camymddwyn ac Afreoleidd-dra. Paratowyd y Polisi newydd ar y cyd ag Anne Davies, sef Aelod Annibynnol o'r Cyngor sydd â phrofiad proffesiynol yn y maes, a chan gyfeirio at arfer gorau yn y sector addysg uwch.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r Polisi Gwrth Dwyll a Chamymddwyn newydd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

61. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Debra Croft, yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb drafft am 2016-17, a fersiwn ddiweddaraf Cynllun Strategol Gweithredu Cydraddoldeb (COU1718-074).

NODWYD

1. Yn unol â gofynion statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus 2011 Cymru, mae'n rhaid i'r Brifysgol gyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar y modd yr ydym yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. Rhoddai'r Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb amlinelliad o'r cynnydd y mae Prifysgol Aberystwyth yn ei wneud wrth ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywioldeb yn y sefydliad, ac wrth hybu diwylliant ac amgylchedd sy'n gynhwysol i'w myfyrwyr, ei staff ac i'r gymuned ehangach sy'n defnyddio ei hadnoddau a'i gwasanaethau.

2. Cafodd drafft yr adroddiad blynyddol ei ystyried gan aelodau'r Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb ar 09 Chwefror 2018 ac argymhellwyd y dylid ei gymeradwyo'n amodol ar fân newidiadau. Cafodd copi ei gyflwyno hefyd i'r Senedd ar 07 Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo drafft Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb am 2016-17 (**GWEITHREDU:** Dr Debra Croft).

62. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN IAITH

DERBYNIWYD

Drafft o Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith am 2016-17 (COU1718-075).

NODWYD

1. Hwn fyddai'r Adroddiad Monitro olaf i'w baratoi ynglŷn â Chynllun Iaith y Brifysgol cyn y bydd PA yn gorfod cydymffurfio â'r Safonau Iaith o 01 Ebrill 2018. Ar gais Comisiynydd y Gymraeg, roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y prif Ddangosyddion perfformiad allweddol a ddarperir yn y patrwm adrodd a baratowyd gan Fwrdd yr Iaith.

2. Roedd aelodau o Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg wedi adolygu drafft yr adroddiad blynyddol ar 09 Chwefror 2018 ac wedi argymell y dylid ei gymeradwyo. Cafodd copi ei gyflwyno hefyd i'r Senedd ar 07 Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo drafft yr Adroddiad Monitro (**GWEITHREDU:** Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg).

63. EITEMAU ER GWYBODAETH.

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1718-076);

2. Adroddiad Blynyddol ar Wrth-Lwgrwobrwyo: Datgeliad Gwybodaeth Gyhoeddus: ac achosion Twyll, Camymddwyn ac Afreoleidd-dra (COU1718-077);

3. Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1718-078);

4. Tueddiadau Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch (COU1718-079);

5. Adroddiad Blynyddol apeliadau a chwynion academaidd (COU1718-080); a

6. Dyddiadau cyfarfodydd 2018/19 (COU1718-081).

NODWYD

7. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

64. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (COU1718-082):

1. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (14 Chwefror 2018);

2. Pwyllgor Archwilio a Risg (09 Mawrth 2018);

3. Y Senedd (07 Mawrth 2018);

4. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (09 Mawrth 2018);

5. Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb (09 Chwefror 2018);

6. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (15 Chwefror 2018); a

7. Bwrdd Ymgynghorol Cadair Wilson mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol (10 Tachwedd 2017).

NODWYD

8. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.

PENDERFYNWYD

9. Y dylid cymryd camau i baratoi crynodebau o'r cofnodion i'w hystyried gan y Cyngor (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

65. UNRHYW FATER ARALL

1. Ffarwelio

Y cyfarfod hwn o'r corff llywodraethu oedd yr olaf i Mrs Elizabeth France am ei bod yn rhoi'r gorau i fod yn Ddirprwy Ganghellor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor wrth i'w chyfnod ddod i ben ar 30 Ebrill 2018. Talodd Cadeirydd y Cyngor deyrnged i gyfraniad sylweddol Mrs France i'r Brifysgol yn ystod ei chyfnod ar y corff llywodraethu.

Cofnodion y sesiwn arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2018, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts (Cadeirydd); Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Mr George Ashworth; Mr Keith Evans; Mrs Elizabeth France; Mr Richard John; Ms Gwerfyl Pierce Jones; Y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern; Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu'r Undeb UMAber; a Mr Gwion Llwyd Williams, Llywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; a Mr Nick Rogers, Cyfarwyddwr Strategaeth Newid

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Anne Davies.

66. CYFANSODDIAD Y SESIWN ARBENNIG O'R CYNGOR

I roi'r Cyngor mewn sefyllfa i ystyried y cynnig hwn, roedd aelodau wedi cymeradwyo trwy ohebiaeth ar 15 Mawrth 2018, ddiwygiadau dros-dro i Ordinhad 36 ("Polisi Osgoi Diswyddiadau"). Cafodd Ordinhad 36T dros-dro ei gyhoeddi ar-lein ers hynny.

Yn unol â'r uchod, ymneilltuodd holl aelodau'r staff ar y Cyngor o'r sesiwn arbennig hon a fyddai'n ystyried y papur COU1718-067 Ad-drefnu Arfaethedig y Brifysgol. Arhosodd Mr Nicholas Rogers, cyd-awdur y papur gyda Jean Jones a fyddai'n cymryd cofnodion.

67. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Nodwyd y canlynol:

1. Mr Ian MacEachern; fel Cyfarwyddwr cwmni Aberystwyth Gyf, roedd dau Ddirprwy Is-Ganghellor yr effeithir arnynt gan y cynnig hefyd yn gyfarwyddwyr.
2. Mr Keith Evans; nododd mai ef oedd Arweinydd Cyngor Ceredigion pryd y penodwyd un o weithwyr yr awdurdod yn Ddirprwy Is-Ganghellor, a bod aelod o deulu Ysgrifennydd y Brifysgol hefyd yn gyflogedig gan y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn.
3. Mr Richard John; nododd fod un o'r Dirprwy Is-Gangellorion yn Dad Bedydd i un o'i blant.
4. Mr Nicholas Rogers; roedd perthynas iddo'n gweithio yn y Brifysgol ac yn cael ei effeithio/heffeithio'n anuniongyrchol gan y cynnig.

Cytunwyd na fyddai angen i un o'r Aelodau Annibynnol a oedd wedi datgan buddiant ymesgusodi o'r drafodaeth ddilynol.

68. AD-DREFNU ARFAETHEDIG Y BRIFYSGOL.

DERBYNIWYD

Ad-drefniant Arfaethedig y Brifysgol COU1718-067

NODWYD

1. Cyflwynai'r papur gynigion i ad-drefnu'r Brifysgol gyda'r nod o gynnal rhagoriaeth mewn addysgu a phrofiad myfyrwyr; gwneud y mwyaf o gryfderau ymchwil, cyflenwi'r Cynllun Strategol yn ogystal â datblygu diwylliant cadarn o gysondeb atebolrwydd mewn addysgu ledled y Brifysgol. Roedd y cynnig yn un o nifer o gamau angenrheidiol i ddarparu fframwaith ariannol cynaliadwy yn y tymor canolig a'r hirdymor.
2. Nid oedd cynlluniau i gwtogi ar nifer yr Adrannau academaidd ond cynigiwyd lleihau nifer yr Athrofeydd o 6, a ffurfio 3 Coleg neu Gyfadran, i'r Celfyddydau, y Gwyddorau Cymdeithasol, a'r Gwyddorau. Byddai Adrannau'r Gwasanaethau Proffesiynol yn cael eu clystyru'n grwpiau newydd gan leihau nifer y swyddi Graddfa 8 ac uwch. Cynigiwyd ymhellach dorri nifer y Dirprwy Is-Gangellorion o 4 i 2 a chreu swydd newydd, sef Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Pe cai'r cynigion eu cymeradwyo a'u

gweithredu amcangyfrifid arbedion o £1.3miliwn, a byddai hyn yn mynd ymhell wrth geisio cyrraedd y nod arbedion ar gyfer Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yn 2018/19.

PENDERFYNWYD

1. Diwygio'r papur er mwyn dangos yn fwy eglur yr angen i gynnwys portffolio'r Gymraeg a Diwylliant Cymru yn un o'r swyddogaethau Gweithredol. Bellach, oherwydd y newidiadau i gyfrifoldebau Cyfarwyddwr yr Ystadau roedd rhaid gosod y swydd hon yn un 'mewn perygl o ddiswyddiad'.
2. Yn dilyn pleidlais, cymeradwywyd yr ad-drefnu arfaethedig mewn egwyddor, 9 o blaid a 2 yn erbyn. Roedd hyn yn amodol ar ymgynghori gyda chais y byddai'r cyfnod ymgynghori ffurfiol angenrheidiol yn dechrau ddydd llun 26 Mawrth, fel yr amlinellwyd yn adran 'Cynllun ac Amserlen Gweithredu' yn y papur. Byddai'r papur yn cael ei gadw'n gyfrinachol tan hynny.
3. I gymeradwyo ychwanegiad i'r ymgynghoriad torfol ac unigol yng nghyswllt y swyddi sydd 'mewn perygl o ddiswyddiad', gwneir ymgynghoriad ehangach ar y fframwaith sefydliadol diwygiedig, a chynullir cyfarfod arbennig o'r Senedd i ganiatáu cyfle i'r corff llywodraethu academaidd ystyried y cynigion, yn unol ag arferion llywodraethol sefydledig;
4. I gymeradwyo cyflwyno Adran 188 ar yr adeg briodol yn unol â gofynion cyfreithiol;
5. Penodi'r aelodau canlynol o'r Cyngor, Ms Gwerfyl Pierce Jones (Cadeirydd), Ms Anne Davies, Mr Richard John, a Mr Keith Evans wrth gefn, i ystyried y cynnig terfynol ar ôl yr ymgynghoriad ffurfiol, yn ôl yr hyn a nodir yn Ordinhad 36T a'i nodi yn yr atodiad;
6. Cytuno i adael y penderfyniad a ddylid dod â'r cynnig terfynol yn ôl i'r corff llywodraethu llawn yn nwylo'r pwyllgor o'r Cyngor sy'n derbyn y cynnig hwnnw, pe gwelid ei fod yn 'sylweddol wahanol' i'r cynnig cyfredol.
7. Cadarnhau y bydd yr Aelodau Annibynnol sy'n weddill, gan gynnwys Cadeirydd y Cyngor, yn gwasanaethu, os oes angen, ar unrhyw banel cwyn neu apêl, i sicrhau na fydd Aelod Annibynnol yn gwasanaethu ar y pwyllgor sy'n penderfynu ar y cynnig terfynol ac yn rhoi cyfarwyddyd i anfon hysbysiadau diswyddo yn aelod o banel cwyn neu apêl. Pe byddai angen i'r penderfyniad terfynol fynd yn ôl i'r Cyngor, rhoddir ystyriaeth i ddull cynnal unrhyw banel cwyn neu apêl sydd angen Aelod Annibynnol, gan gynnwys presenoldeb adnodd allanol diduedd, pe byddai hynny'n briodol.